OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1565

# Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

## RHAN 7

CYLLID

**Cyhoeddi datganiad cyfrifon blynyddol y Comisiynwyr**

**52.** Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl paratoi eu datganiad cyfrifon blynyddol, rhaid i'r Comisiynwyr—

(a) rhoi copi o'r datganiad ar gael yn swyddfeydd y Comisiynwyr am gyfnod o dri mis, i'w archwilio'n ddi-dâl gan aelodau'r cyhoedd, a rhaid i'r Comisiynwyr, os telir tâl rhesymol, gyflenwi copi o'r datganiad i unrhyw berson sy'n gofyn am gael ei gyflenwi â chopi; a

(b) anfon copi o'r datganiad at Weinidogion Cymru a phob un o'r awdurdodau lleol.